

23 Mawrth 2018

Annwyl Gyfeillion,

### Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad am [Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru](#) ym mis Ionawr 2018 ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cytuno i gynnal ymchwiliad.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei rwystredigaeth yn y gorffennol ynghylch yr oedi o ran gweithredu systemau TG ar gyfer arlwyio mewn ysbytai fel rhan o'i waith blaenorol yn y maes hwnnw. Bydd yn dymuno trafod hyn yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar, ynghyd â'r rhesymau dros yr oedi sylweddol o ran diweddarau gwasanaethau TGCh, gwendidau yn y trefniadau i oruchwylio a chefnogi'r gwaith darparu a'r risg y bydd system electronig ar gyfer cofnodion cleifion yn rhy hen erbyn iddi gael ei rhoi ar waith.

Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn:

- Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ran gwybodeg GIG Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod cyrff y GIG yn cytuno ar yr hyn y mae 'Unwaith i Gymru' yn ei olygu'n ymarferol.
- Y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddeall yn well y costau o gyflawni ei weledigaeth ar gyfer gwybodeg a sut y gellid ei ariannu o ystyried y duedd ar i lawr yn y gwariant ar TGCh a'r amcangyfrif y bydd cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer gwybodeg yn costio £484 miliwn ar ben cyllidebau cyfredol.
- Rhychwant yr adnoddau a'r buddsoddi ar lefel leol.



- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yng ngoleuni pryderon a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac argymhellion yr Adolygiad Seneddol i ddod â chyrrff Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o dan swyddogaeth weithredol ganolog GIG Cymru gryfach.
- Arweinyddiaeth leol, gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol, a safbwyntiau cyrrff y GIG ar y ffactorau sy'n arafu'r gwaith o gyflwyno cofnod cleifion electronig.
- Heriau'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio a chadw arbenigwyr TGCh.
- Sicrhau mwy o eglurder ynghylch a yw manteision arfaethedig buddsoddiad yn cael eu cyflawni.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac wrth ystyried cwmpas yr ymchwiliad hwn, nid yw'n dymuno dyblygu unrhyw waith y mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â'r Adolygiad Seneddol.

Rwyf yn ysgrifennu i ofyn am eich barn am y pwyntiau uchod, ynghyd ag unrhyw farn sydd gennych am ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, syniadau am arferion ehangach mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt, ac unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych ynghylch rhoi systemau TG ar waith erbyn 20 Ebrill.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**  
Cadeirydd

